# LLANRHAEADR YNG NGHINMEIRCH COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod 7:00 pm Dydd Llun 28 Medi 2025**
**Ystafell Cymunedol, Ysgol Bro Cinmeirch ac arZOOM**
**https://us02web.zoom.us/j/3946960616?omn=83025720257**

**Yn bresennol**: Arwel Davies (Cadeirydd), Ian Evans (Is-gadeirydd), Philip Williams, Edmund Evans, Stephen Williams, Rhian Wyn Jones, Helen Jones.

1. **Ymddiheuriadau**: Manon Davies, Bari Evans, Elfed Williams (Cynghorydd Sir).

2. **Adran siarad gyhoeddus**: Dim.

3. **Cofnodion cyfarfod 29 Gorffennaf 2025**

Cynigiwyd y rhain fel cofnod cywir: Cynigiwyd: Ian Evans Eiliwyd: Phil Williams

Mater yn codi: Roedd yr Is-gadeirydd wedi cael dyfynbris am arwyddion ymwybyddiaeth cyflymder. Dirprwywyd y Clerc i gael 20 o arwyddion am y gwerth gorau am arian i'r Cyngor.

Cynigiwyd: Arwel Davies Eiliwyd: Phil Williams

4. **Penodi Clerc newydd**

Derbyniwyd dau ymholiad newydd. Ni ystyriwyd bod y naill na'r llall yn addas ar gyfer y gofyniad presennol ar gyfer swydd y Clerc.

PENDERFYNWYD:

i. Cynnig y swydd i'r Clerc locwm tan ddiwedd y cylch archwilio presennol (2025-26) ar 1af Mehefin 2026. Byddai'n gweithio 15 awr y mis, yn codi i 20 awr y mis ar gyfer Ebrill a Mai 2026 i adlewyrchu'r gwaith ychwanegol ar gyfer yr archwiliad. Byddai'r cyflog yn Bwynt Graddfa 25 (£18.26 yr awr).
ii. Byddai'r Cadeirydd yn holi a fyddai gan un o'r ymgeiswyr ddiddordeb yn swydd y Dirprwy Glerc. Byddai hyn yn caniatáu iddi dderbyn yr hyfforddiant angenrheidiol i ymgymryd â rôl y Clerc ym mis Mehefin.

Cynigiwyd: Ian Evans Eiliwyd: Phil Williams Pleidleisiodd: Unfrydol

Derbyniodd y Clerc Locwm y cynnig hwn a byddai'n dechrau ar 1af Hydref. Gofynnwyd iddo gysylltu â Harold Smith and Co Accountants gyda'r bwriad o ail-ddechrau'r cynllun PAYE.

**5. Cyllid**
i. **Archwilio:** Mae Archwiliad 2024-5 bron yn barod i fynd at yr archwilydd mewnol.

O ystyried nad oedd gan y Clerc fynediad at anfonebau/derbynebau ar gyfer y flwyddyn hon na mynediad at e-byst y Clerc blaenorol, byddai'r archwiliad yn anghyflawn ac yn un 'amodol' ar y gorau.

Fodd bynnag, byddai'r Clerc yn ychwanegu rhagair at yr adroddiad Archwilio yn manylu ar yr holl welliannau a wnaed ym mholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor i ddangos i'r Archwilydd Allanol ein hymrwymiad ar gyfer y dyfodol.

ii. **Anfonebau Archwilio Cymru.** Roedd y Cynghorwyr wedi gweld yr adroddiadau archwilio allanol ar gyfer 2020-21, 2021-22, 2022-23 a 2023-24 yn flaenorol. Derbyniwyd anfonebau gan Archwilio Cymru ar gyfer y pedair blynedd hyn:

2020-21 £200
2021-22 £390
2022-23 £910
2023-24 £380

Gofynnodd y Clerc ddwywaith am ddadansoddiad o sut y cyfrifwyd yr anfonebau hyn.

PENDERFYNWYD: Bod y Clerc yn rhoi'r holl anfonebau ar yr agenda nesaf i'w talu ac eithrio 2022-23.

**iii. Taliadau**

| | |
|---|---|
| a) Y Clerc (E.M. ab Owain) Gwaith Clerc Awst a Medi 2025 | £452.40 |
| b) Costau'r Clerc Awst a Medi 2025 | £33.86 |
| c) Cyngor Cymuned Derwen am ddinistrio papurau'r cyn Clerc | £65.53 |
| d) Cadeirydd (A. Davies) Iwfansau 2024 - 25 | £1500.00 |
| e) Cynnyrch Coed Meifod 2 x Mainc | £337.00 |
| dd) CATalyst Systems (Gogledd Cymru) Cyf. cyfrifiadur a meddalwedd | £820.80 |
| g) Cyngor Sir Ddinbych (llogi ystafell x 5) | £100.00 |
| h) Capel Y Pentref (llogi'r festri) | £20.00 |

Cynigwyd bod y rhain yn cael eu cymeradwyo:

Cynigiwyd: Phil Williams Eiliwyd: Ian Evans Pleidleisiodd: Unfrydol

iv. **Lwfansau.** Darllenodd y Clerc lefel lwfansau IRPW sydd ar gael i Gynghorwyr, Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion am 2024-25. Gofynnodd am ymateb ysgrifenedig erbyn diwedd yr wythnos os oeddent yn dymuno hawlio ar gyfer 2024-25 neu ddim.

| | | |
|---|---|---|
| v. Balansau Banc: | HSBC BMM | £30,823.82 |
| | Cyfrif Elusen HSBC | £14,897.40 |

**6. Gliniadur a meinciau**

Roedd y ddau yma bellach wedi'u danfon. Byddai'r Cadeirydd a'r Cynghorydd Phil Williams yn trefnu i'r meinciau gael eu gosod yn eu lle.

7. **Byrddau Hysbysu**

Roedd y Clerc wedi cael dyfynbrisiau (tua £3k) ar gyfer 3 bwrdd hysbysiad. Gofynnodd y Cyngor iddo gael dyfynbrisiau pellach ar gyfer 3 bwrdd llai, tebyg i'r rhai a osodwyd yn ddiweddar gan Gyngor Tref Dinbych.

8. **Papurau Gwyn Davies**

Byddai'r Is-gadeirydd a'r Cynghorydd Phil Williams yn parhau i chwilio am gwpwrdd addas i gadw dogfennau'r Cyngor a gasglwyd o dŷ'r Clerc blaenorol. Byddai hwn yn cael ei osod yn Ystafell Gymunedol Ysgol Bro Cimeirch.

**9. Palmant Pentref Llanrhaeadr**

Cynigiodd y Cynghorydd Stephen Williams ein bod yn gofyn i Gyngor Sir Dinbych ddarparu palmant ar ochr ddwyreiniol yr A525 i gysylltu â'r tai newydd ym mhen Rhuthun y pentref.

PENDERFYNWYD: Bod y Clerc yn gofyn i'n Cynghorydd Sir, Elfed Williams, drafod y mater gyda Chyngor Sir Dinbych. Byddai'r Clerc hefyd yn gweld a oedd unrhyw symiau cymudo ar gael i ariannu prosiect o'r fath.

**10. Biniau Gwastraff**

Cynigiodd y Cynghorydd Stephen Williams ein bod yn gofyn i Gyngor Sir Dinbych ddarparu bin gwastraff ym mhen deheuol Pentref Llanrhaeadr.

PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn gofyn i'n Cynghorydd Sir, Elfed Williams, drafod y mater gyda Chyngor Sir Dinbych.

11**. Ceisiadau cynllunio:**

i. 23/2025/0383/PF Rossa Bach, Prion, Dinbych, Sir Dinbych, LL16 4RP Adeiladu lagŵn slyri a chloddiau pridd a gwaith cysylltiedig

Dim gwrthwynebiad

12. **Cyfarfod nesaf:** 27 Hydref 2025.